

Trefniadau Diogelu Busnes Asiant – manylion y darparwr

Darperir y tabl hwn i'ch cynorthwyo chi i sicrhau trefniadau diogelu busnes yn ymwneud ag amddiffyn arian cleientiaid, yswiriant indemniad proffesiynol ac aelodaeth o gynllun iawndal.

Nid ystyrir y rhestr yn un gynhwysfawr ac nid yw Rhentu Doeth Cymru yn argymhell y cwmnïau a restrir yn benodol - fe'i darperir i'ch cynorthwyo yn eich ymchwil i ddod o hyd i'r darparwr trefniadau diogelu busnes gorau ar eich cyfer chi.

Gall y cyrff proffesiynol canlynol eich cynorthwyo chi i sicrhau trefniadau diogelu busnes yn ymwneud ag amddiffyn arian cleientiaid, yswiriant indemniad proffesiynol ac aelodaeth o gynllun iawndal.

Cyrff Proffesiynol:

ARLA Propertymark <http://www.arla.co.uk/>

NAEA Propertymark <http://www.arla.co.uk/>

SafeAgent – (y Cynllun Gosod Cymeradwy Cenedlaethol gynt)' <https://safeagents.co.uk/>

RICS - Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig <https://www.rics.org/uk/>

a

UKALA – Cymdeithas Asiantaethau Gosod Tai y DU <https://www.ukala.org.uk/>

Nodwch os oes gennych aelodaeth a reoleiddir o unrhyw un o'r cyrff proffesiynol canlynol, efallai bod y trefniadau diogelu hyn gennych eisoes. Felly, byddem yn eich cynghori i gysylltu â'r corff proffesiynol yr ydych yn aelod ohono i bennu pa un a oes yw'r trefniadau diogelu hyn gennych yn barod.

Fel arall, edrychwch dros y ddalen am ddarparwyr trefniadau diogelu busnes.

Mae'n rhaid i'r trefniadau diogelu busnes gynnwys deiliad y drwydded. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth fod yn gyfredol a chynnwys yr endid cyfreithiol, sef deiliad y drwydded.

| | |
|--|--|
| <p>Amddiffyn Arian Cleientiaid - Ffurflen yswiriant yw hon sy'n amddiffyn cleient (y landlord a'r tenant fel arfer), pe bai'r cwmni sy'n cadw'r arian naill ai'n mynd i'r wal neu'n camddefnyddio'r arian. Mae arian y cleient dan yr amgylchiadau hyn yn cynnwys rhent, blaendaliadau neu gronfeydd eraill (boed hynny ar ffurf arian parod, siec, drafft neu drosglwyddiad electronig), y mae Asiant yn eu dal neu yn eu derbyn, ar gyfer cleient neu ganddo, nad yw'n daladwy ar unwaith nac ar gais i'r Asiant am ei gyfrif ei hun.</p> | <p>Nodwch y bydd gan ddarparwyr prosesau amddiffyn arian cleientiaid, eu gofynion eu hunain y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd eu bodloni cyn eu bod yn fodlon amddiffyn arian cleientiaid, er enghraifft, prawf o gyfrif(on) cleientiaid ar wahân ar gyfer rhenti a blaendaliadau.</p> <p>Client Money Protect - https://www.clientmoneyprotect.co.uk/</p> <p>Lonsdale Insurance Brokers Limited - http://www.lonsdaleib.com/our-business/pi-cmp/</p> |
| <p>Yswiriant Indemniad Proffesiynol - Mae'r yswiriant hwn yn cynnwys costau a threuliau cyfreithiol ynghlwm wrth amddiffyn honiad yn erbyn asiant, yn ogystal ag iawndal sy'n daladwy i'ch cleient i wneud iawn am y camgymeriad os byddwch yn torri dyletswydd contract proffesiynol (e.e. drwy roi gwybodaeth anghywir), y mae eich cleient yn teimlo ei fod wedi cael cam.</p> | <p>Mae Yswiriant Indemniad Proffesiynol ar gael yn eang yn y sector preifat. Sicrhewch fod eich yswiriant yn cynnwys yr endid cyfreithiol cywir a bod yr yswiriant yn cynnwys y gweithgareddau gosod a rheoli a wneir gennych chi yn hytrach nag unrhyw fusnes arall y gall fod gennych. Mae'r lefel o yswiriant sy'n ofynnol fel a ganlyn: Portffolio cyfun asiantau o eiddo sy'n cael eu gosod a'u rheoli: Hyd at 100 eiddo – £100,000 101 eiddo neu fwy - £500,000</p> |
| <p>Aelodaeth o Gynllun Iawndal - Y cynlluniau iawndal a gydnabyddir gan Rhentu Doeth Cymru fel rhai sy'n darparu gwasanaeth iawndal di-duedd. Bydd angen i aelodaeth fod ar gyfer yr endid cyfreithiol sy'n dal y drwydded, ac mae'r yswiriant wedi'i leoli mewn cangen. Mae'n rhaid datgan i'r cynllun iawndal bob cangen sy'n cwblhau gweithgareddau gosod a rheoli.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Y Cynllun Ombwdsman Eiddo (https://www.tpos.co.uk/) • Y Cynllun Iawndal Eiddo (https://www.theprs.co.uk/) |

Nid ystyrir y rhestr yn un gynhwysfawr ac nid yw Rhentu Doeth Cymru yn argymhell y cwmnïau a restrir yn benodol - fe'i darperir i'ch cynorthwyo yn eich ymchwil i ddod o hyd i'r darparwr trefniadau diogelu busnes gorau ar eich cyfer chi.